# Cynnwys


**Geiriau a termau pwysig ........ 4**

**Am Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ........ 5**

**Ein nodau ........ 7**

1. Bod yn rhan o'ch cymuned ........ 8

2. Cyrraedd eich nodau mewn dysgu a gwaith ........ 12

3. Cael gwybodaeth rydych chi'n gallu ymddiried ynddi .. 15

4. Cefnogi iechyd a lles pobl a theuluoedd niwrowahanol ........ 17

5. Cael eich deall a dathlu gwahaniaeth ........ 21

6. Gwella lleoedd ar gyfer pobl niwrowahanol ........ 24

**Sut mae'r cynllun yma wedi cael ei wneud ........ 29**

Gwrando ar beth mae pobl yn feddwl ........ 30


**Beth sy'n digwydd nesaf ........ 33**

# Ein nodau



**Ein prif nod ydy:**

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o **niwrowahaniaeth**.
- Gwneud Gaerdydd yn rhywle lle  mae pobl **niwrowahanol** yn cael eu cefnogi i fyw'n dda.




I'n helpu i wneud hyn, mae gennym ni 6 nod llai ar gyfer pobl **niwrowahanol**:

1. Bod yn rhan o'ch cymuned.
2. Cyrraedd eich nodau mewn dysgu a gwaith.
3. Cael gwybodaeth rydych chi'n gallu ymddiried ynddi.
4. Cefnogi iechyd a lles pobl a theuluoedd **niwrowahanol**.
5. Cael eich deall a dathlu gwahaniaeth.
6. Gwella lleoedd ar gyfer  pobl **niwrowahanol**.

# 1. Bod yn rhan o'ch cymuned





Rydyn ni eisiau i Gaerdydd fod yn rhywle lle mae pobl a theuluoedd **niwrowahanol** yn gallu cymryd rhan yn eu cymuned.



Rhaid iddyn nhw allu cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau sy'n dda i'w lles.

**Dyma rai o'r pethau fydd sefydliadau yn eu gwneud:**



- Fe fydd **Cymdeithas Dyslecsia Prydain** yn dod o hyd i gefnogaeth i bobl sy'n profi **dyslecsia** a **dyscalcwlia**.



Mae **dyslecsia** yn anhawster dysgu i'w wneud gyda darllen a sillafu.

Mae **dyscalcwlia** yn anhawster dysgu i'w wneud â rhifau a mathemateg.

# Sut mae'r cynllun yma wedi cael ei wneud




Mae gwahanol gynlluniau a deddfau wedi cael eu defnyddio i helpu i wneud y cynllun yma, fel:

- Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru.
- Cod Ymarfer Awtistiaeth/Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth.
- Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyngor Caerdydd 2024 – 2028.
- Strategaeth Byw'n Dda Caerdydd gydag Anabledd Dysgu i Oedolion 2024 – 2029.



# Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthyn ni

**Roedd gan lawer o bobl bryderon am y pethau yma:**



- Dim dealltwriaeth am **niwrowahaniaeth**.
- Mae yna lawer o stigma am **niwrowahaniaeth**. Mae hyn yn meddwl bod pobl yn aml yn meddwl mewn ffyrdd gwael amdano.
- Dydy pobl ddim yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen.
- Does dim digon o wybodaeth dda.
- Does dim digon o feddwl yn cael ei roi i fannau a gwasanaethau cyhoeddus.


# Beth sy'n digwydd nesaf



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl o'r cynllun yma.



Fe fyddwn ni'n gwrando ar beth mae pobl yn ddweud i wneud y fersiwn derfynol o'r cynllun.




Mae'r cynllun yma yn dangos llawer o'r nodau y byddwn yn ceisio eu cyflawni. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn ein helpu i wneud Caerdydd yn ddinas sy'n deall **niwrowahaniaeth**.



Rydyn ni eisiau parhau i wrando ar bobl **niwrowahanol** a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw lais yn y gwaith yma.

